



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB24: Papur Tystiolaeth Ynni Adnewyddadwy

Hydref 2026



Bwrdeistref Sirol Caerffili
2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd
2020 – 2035
Ynni Adnewyddadwy
Crynodeb Annhechnegol

Crynodeb Annhechnegol

Mae'r papur hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisiau ynni adnewyddadwy yn 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n asesu potensial yr ardal ar gyfer ynni adnewyddadwy, y prif gyfyngiadau, a'r dull cynllunio mwyaf effeithiol ar gyfer annog prosiectau ynni adnewyddadwy newydd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon a chefnogi taith Cymru tuag at fod yn sero net. Bydd ynni adnewyddadwy yn rhan bwysig o gyflawni hyn.

Y cyfleoedd mwyaf ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y dyfodol yw **ynni solar** ac **ynni gwynt**, gyda ynni solar yn cael ei nodi fel y dechnoleg sydd â'r potensial mwyaf yn gyffredinol.

Bydd angen cynyddu'r lefel bresennol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn sylweddol os yw targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer lleihau carbon i gael eu cyflawni.

Y prif rwystrau i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd yw:

- Diffyg tir addas;
- Cyfyngiadau ar gapasiti'r grid trydan ac oedi wrth gael cysylltiadau;
- Cyfyngiadau amgylcheddol a thirweddol; a
- Chostau seilwaith.

Mae cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau gwres ar raddfa fawr yn gyfyngedig, ond gallai fod potensial yn y dyfodol ar gyfer **gwresogi dŵr pyllau glo** a rhwydweithiau gwres lleol sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr.

Canfu ymgysylltu â chwmnïau ynni, gweithredwyr y grid ac arbenigwyr technegol fod **polisi cynllunio hyblyg sy'n seiliedig ar feini prawf** yn well na dynodi ardaloedd sefydlog ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r dull hwn yn fwy abl i ymateb i dechnolegau newydd a chyfleoedd datblygu sy'n newid drwy gydol oes y cynllun.

Mae'r dystiolaeth yn dangos y dylid cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy ledled y fwrdeistref sirol lle gellir ymdrin yn foddhaol ag ystyriaethau amgylcheddol, technegol a chymunedol. Felly, mae'r cynllun yn hyrwyddo dull hyblyg sy'n cefnogi ynni solar, ynni gwynt a thechnolegau carbon isel eraill, wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau sero net.